CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 19eg o Ionawr 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Aled Rees, Meirion Roberts, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Rhys Parry.

   Ers y cyfarfod diwethaf, daeth tristwch mawr dros yr ardal yn dilyn marwolaeth Hywel Marchlyn. Roedd wedi gwneud cyfraniad enfawr i'r ardal, ac wedi bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned ers yn agos i 50 mlynedd. Roedd yn gymeriad hoffus llawn hiwmor a byddai colled fawr ar ei ol. Danfonwyd ein cydymdeimlad dwysaf gyda Ceinwen, Sion a'r teulu i gyd.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Dachwedd 2023

   ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   - **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r holl faterion. Byddai rhaid ysgrifennu ymhellach yng nghyswllt y ffordd tua Cefn Caer, gan fod twll enfawr yno.
   - **Gohebiaeth am y bwriad i gau yr A487 ger Pontarddyfi –** roedd copiau o'r ohebiaeth gyda Mabon ap Gwynfor wedi ei ddosbarthu I bawb ymlaenllaw. Roedd siom am y diffyg ymateb I'r pryderon gan Lywodraeth Cymru a'r contractwyr. Byddai'r ffordd yn cau ar y 10fed Chwefror am tua mis, er bod hawl am 3 mis. Nodwyd fod Clwb Rotari Machynlleth wedi cynnig cludo bwyd/meddyginiaethau I bobol oedrannus, a gwelwyd y byddai yn dda os allem roi cyhoeddusrwydd I hyn drwy gyfrwng posteri /gwefannau etc. Addawodd Meirion Roberts gael mwy o wybodaeth.
   - **Dwr yn sefyll o flaen Ty Alys** – cyfeiriwyd at y cefndir, a darllenwyd ymateb yr Adran Briffrydd yn dilyn danfon lluniau oedd yn dangos y broblem yn glir. Roeddynt yn dweud mai y broblem oedd dwr yn cael ei waredu o'r to. Addawodd y Cadeirydd Rhys Parry ymdrin a hyn.
   - **Mynwent yr Eglwys** – adroddwyd y diweddaraf am y fynwent yma a oedd ym mherchnogaeth yr Eglwys, a dosbarthwyd copi o lythyr gan y Cyngor ym mis Mai 2022 i Hugh Ramsbotham lle roedd y Cyngor wedi dweud y byddem yn ystyried cymryd trosodd berchnogaeth y fynwent. Trafodwyd y sefyllfa, a bod angen trefnu diwrnod o dacluso/clirio yno. Nid oedd modd gwenud mwy heb gael llythyr gan yr Eglwys.
   - **Carafan static Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy** - darllenwyd ymatebion pellach gan y Parc Cenedlaethol. Yn achos y garafan yn Cwm Sylwi, dywedwyd mai y pryder oedd fod rhywun yn dod yno'n barhaol. Byddai'r Clerc yn ymateb i Jane Jones, Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth.

- **Cofrestr Asedau** – nodwyd y rhestr, ac adolygwyd y cyfansymiau, tra hefyd yn cyfeirio ar y polisi yswiriant. Roedd y cyfanswm bellach yn £26,000, a byddai'r Clerc yn diweddaru y rhestr. Addawodd Cyng James Brunton gael eglurhad gyda chomin y Marian. Adroddwyd fod yn ymddangos nad oedd y fainc gyhoeddus ger yr arhosfan bws yn Cwrt yno erbyn hyn, a bod angen gwybodaeth beth oedd y sefyllfa, a gwneud cais yswiriant os oedd yn bosib. Byddai'r Cynghorwyr yn dychwelyd at y Clerc ynglyn a hyn.
- **Difibrillators** – adroddodd y Clerc ei fod wedi siarad efo Thomas Hughes am y mater, ac sydd wedi gofalu am y ddau ohonynt yn yr ardal. Roedd angen gwario ar y ddau, sef oddeutu £300 yr un. Awgrymwyd y byddai yn well cael rhai newydd, gan gynnwys cyswllt trydan iddynt, a chytunwyd ar gost o £1000 yn y lle cyntaf. Roedd cyfarfod gyda Thomas Hughes wedi ei drefnu ar gyfer bore dydd Mawrth 23ain Ionawr, a chytunodd Cyng Rhys Parry, Aled Rees a'r Clerc i fod yn bresennol.
- **Hyfforddiant Cynghorwyr** – amlinellwyd wybodaeth am nifer o gyrsiau Un Llais Cymru. Byddai'r Clerc yn dosbarthu y rhai diweddaraf. Gwelwyd fod rhaid ceisio cael rhai Cynghorwyr i gymryd rhan yn hyn yn flynyddol, ac hysbysu hyn ar y wefan.
- **Cerbydau wedi eu parcio yn Maesteg** – roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Adra, ond ni chafwyd ymateb, er eu hatgoffa.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

**6. Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £8380.30, a Cyfri Cadw £2,621.92. (29 Rhag 2023)

b) Atgoffywd pawb am yr anfoneb a'r taliadau a wnaethpwyd ers y cyfarfod diwethaf (cadarnhwyd drwy e-bost dyddiedig 23.12.23 I'r Cynghorwyr) sef;

Torri gwair mynent Pennal am 2023 - £300

Torri gwair comin y Marian am 2023 - £899.64

Torch Sul y Cofio - £30.

c) Roedd anfoneb I law gan William Rees am y canlynol;

Llogi wood chipper a disel - £80

Agor 2 fedd (diweddar Ellie Marie Rayner - o flwyddyn 2022-23) a Margaret Elinor Williams - £600

Llenwi biniau halen (o flwyddyn 2022-23) - £170

Agor bedd diweddar Hywel Evans (gyda vault a slates cymraeg ) - £600

Ar gynnig Cyng James Brunton a'I eilio gan Ken Griffiths, cytunwyd i dalu y cyfanswm , sef £1740. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng William Rees pan drafodwyd hyn)

Hefyd, cadarnhwyd taliad cydnabyddiaeth y Clerc am y trydydd chwarter, sef £499.99 a HMRC £125.

d) Roedd cais am arian i law gan yr Urdd, a phenderfynwyd, ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'i eilio gan Aled Rees I gyfrannu £50.

e) Dosbarthwyd cyllideb drafft wedi ei pharatoi gan y Clerc ar gyfer 2024-25, ac aethpwyd drwy yr holl benawdau, a newid fel bo'r angen. Ar sail cynnwys y gyllideb, **penderfynnwyd cynyddu y praesept ar gyfer 2024-25 y swm o £3000, sef cyfanswm felly o £18,000.** Nodwyd fod angen cadw arian wrth gefn yn y Cyngor am nifer o resymau, gan gynnwys costau gyda'r fynwent, gwaith gyda'r arhosfan bws, defibrillators o'r newydd ayyb. Adroddodd Cyng Dewi Owen y bydd toriadau yn sgil setliad gwael i Gyngor Gwynedd, a'r tebygrwydd y byddai yn fwy o bwysau ar gyllideb Cynghorau Cymuned.

f) Cadarnhaodd yr holl Gynghorwyr nad oeddent am hawlio unrhyw gostau am 2024-2025.

g) Nodwyd llythyrau o ddiolch I'r Cyngor am y cyfraniadau I'r Ganolfan (cyfraniad cost Wi-fi) a Dail Dysynni.

7. **Gohebiaeth.**

- Roedd e-bost gan y Parc Cenedlaethol yn cynnig prosiect cyflenwi coed ywen ar gyfer mynwentydd.
- Nodwyd derbyn copi o Strategaeth Hamdden y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2024-2029.

8. **Unrhyw fater arall.**

   a) Adroddwyd fod y ffordd o'r Cwrt I'r Ynys mewn cyflwr gwael, yn bennaf o Penmaenbach i lawr. Roedd hon angen sylw ar frys.

   b) Gan fod yna bellach le gwag ar y Cyngor Cymuned, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd I ddechrau ar y broses o hysbysebu o fewn yr ardal.

**Byddai'r cyfarfod nesaf Nos Wener yr 8fed o Fawrth 2024 yn y Ganolfan am 7.30.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.30pm.